# *THE WORLD'S END* (Wright, 2013):
## Cynhyrchu a chyd-gynhyrchu

## Edrychwch ar y canlynol:







**Pa un o'r rhain sydd fwyaf cyfarwydd i chi, a pham?**

---

**Ydych chi'n gallu enwi unrhyw ffilmiau rydych chi wedi eu gweld sy'n dangos un o'r logos hyn ar ddechrau'r ffilm?**

---

**Pa mor bwysig yw hi i'r gynulleidfa wybod pwy sy'n cynhyrchu ffilm?**

---

# *THE WORLD'S END* (Wright, 2013):
## Cynhyrchu a chyd-gynhyrchu

## Cyflwyniad

Fel grŵp, rhowch gyflwyniad i'r dosbarth ar y manteision a'r problemau sy'n codi wrth i Universal a Working Title weithio gyda'i gilydd. Beth mae hyn yn ei awgrymu am natur cyd-gynhyrchu a manteision ac anfanteision cyd-gynhyrchu?

## Gwaith dilynol

- Dewch o hyd i ddiffiniadau o'r cysyniadau canlynol – synergedd a chydgyfeiriol.
- Meddyliwch am y termau hyn yng nghyd-destun y berthynas rhwng Universal a Working Title.
- Ewch ati i greu map meddwl, siart llif neu ddiagram corryn/pry cop sy'n dangos cysylltiadau Universal â sefydliadau eraill y cyfryngau (gan gynnwys Working Title).

# *THE WORLD'S END* (Wright, 2013):
## Cynhyrchu a chyd-gynhyrchu

## Tasg grŵp

Rydych chi'n mynd i gael eich rhoi mewn **grwpiau ar wahân** a bydd gofyn i chi ymchwilio i **naill ai** Universal neu Working Title.

1. Bydd angen i chi ddarganfod y canlynol:

- Pwy yw Universal a Working Title?
- A oes gan y cwmnïau cynhyrchu hyn unrhyw gysylltiadau â chwmnïau eraill y cyfryngau?
- Pa ffilmiau mawr maen nhw wedi'u cynhyrchu yn y pum mlynedd diwethaf??
- Pa ffilmiau sydd wedi cael llwyddiant ysgubol dros y cyfnod hwnnw, a pha ffilmiau sydd wedi bod yn fethiant?

Dylech chi neilltuo'r cwestiynau penodol hyn i un aelod o'ch grŵp, ac yna trafod y canfyddiadau.

| Creu crynodeb o'ch canfyddiadau. |
|---|
| |

2. Ar ôl gwneud y dasg hon, bydd eich grŵp chi'n cael ei uno â grŵp sy'n ymchwilio i'r cwmni cynhyrchu arall.

Gan edrych ar yr hyn rydych chi wedi ei ddarganfod, rhestrwch **yn gyntaf y manteision** wrth i Universal a Working Title weithio gyda'i gilydd, ac **yn ail y problemau** a allai godi.

| Manteision | Problemau |
|---|---|
| | |